# Adroddiad Arolygu

**Cywion Bach**

**Meithrinfa Cywion Bach Nursery**
**Idole**
**Caerfyrddin**
**SA32 8DG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cywion Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cywion Bach Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Rhagfyr 2021 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser ym meithrinfa Cywion Bach yn fawr iawn, gan fod ganddynt lais cadarn ac maent yn ddysgwyr chwilfrydig. Maent yn gwneud dewisiadau am yr hyn y maent yn ei wneud a'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad yn gyson, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n seiliedig ar chwarae. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt.

Mae'r staff yn deall polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant personol yn llwyr, ac yn eu dilyn. Maent yn gymwysedig, yn wybodus, yn garedig ac yn ofalgar iawn tuag at y plant, gan ddarparu lleoliad magwrus dan arweiniad y plant. Mae'r staff yn cynllunio ac yn asesu mewn ffordd bwrpasol ac yn hyrwyddo'r ethos dysgu awyr agored yn effeithiol er mwyn sicrhau bod diddordebau a chwilfrydedd y plant yn cael eu datblygu ymhellach. Mae'r staff yn dangos brwdfrydedd gwirioneddol yn eu rolau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi mesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Maent yn sicrhau bod ystod eang a chyffrous o adnoddau a chyfarpar naturiol a phwrpasol ar gael i'r plant er mwyn meithrin eu sgiliau datblygiadol cyffredinol. Maent yn cynnig cyfleoedd ardderchog i chwarae a dysgu mewn amrywiaeth o ardaloedd awyr agored mewn amgylchedd pwrpasol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn rheoli'r lleoliad yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer adolygu a diweddaru Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu dilyn yn gyson bob amser ac, o ganlyniad hynny, nid oedd gwiriad un aelod o'r staff yn gyfredol yn ystod yr arolygiad. Mae'r gwiriad wedi'i gwblhau erbyn hyn. Mae amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r gwaith o redeg y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr diogelu dynodedig yn dilyn y polisi amddiffyn plant bob amser er mwyn gwneud atgyfeiriadau prydlon at yr awdurdod lleol a rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am y digwyddiadau o bwys hyn.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr cryf. Maent yn hyderus wrth wneud eu dewisiadau eu hunain am beth yr hoffent ei wneud a lle yr hoffent chwarae. Mae'r plant yn gwybod bod eu safbwyntiau a'u diddordebau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac y gweithredir yn eu cylch ac, o ganlyniad hynny, mae'r plant yn cael gafael ar adnoddau o ardaloedd eraill yn hyderus i'w defnyddio wrth chwarae. Er enghraifft, penderfynodd un grŵp o blant chwilio yn yr ardd am ddail i'w hychwanegu at eu gweithgaredd chwarae dŵr. Cafodd eu cais i chwilio am ddail ei annog gan y staff a datblygodd eu gweithgaredd dan arweiniad y plant yn weithgaredd archwilio ac ymchwilio yn fuan wrth iddynt wylio gwrthrychau naturiol yn cael eu cludo gan y dŵr.

Mae'r plant yn hapus tu hwnt, maent yn dangos diddordeb ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'u cyfoedion a'r staff ac maent yn gyfarwydd â'r holl arferion. Caiff eu teimladau a'u hanghenion eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Er enghraifft, cafodd un plentyn faldod pan oedd ychydig yn ddagreuol yn ystod amser carped, a chafodd ei chefnogi mewn ffordd ysgafn a magwrus. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad, yn ogystal â'i ethos.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson ysgogol ac mae'r plant yn cydweithredu'n frwdfrydig. Mae'r plant yn mynegi empathi a gofal tuag at ei gilydd ac yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd, gan ymateb a chyfathrebu â diddordeb. Maent yn ymddiddori'n llawn ac yn dangos parch at eraill ac at yr amgylchedd. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda iawn, yn cymryd eu tro ac yn rhannu. Er enghraifft, arhosodd y plant yn amyneddgar am eu tro i rolio'r bêl drwy'r twnnel yn ystod gweithgaredd dan do, a gwnaethant gymryd eu tro ar y siglenni coed poblogaidd heb ymyriad gan oedolion. Rhyngweithiodd y plant hŷn yn effeithiol â'i gilydd yn ystod gweithgaredd chwarae dychmygol yn yr ardal goetir, gan redeg ochr yn ochr â'i gilydd a'r ieir.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr ac maent yn ymgolli'n llwyr yn y cyfleoedd cyffrous sydd ar gael iddynt. Mae'r holl blant, gan gynnwys y babanod, yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau chwarae creadigol, corfforol ac archwiliol. Aeth y plant iau ar antur i'r cae cyfagos i weld yr ŵyn a phan wnaethant ddychwelyd roeddent yn llawn cyffro a sgwrs ac yn barod am eu pryd maethlon ac iachus. Gall y plant ddefnyddio'r ardd, lle gallant fwynhau amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu sy'n hybu eu datblygiad cyfannol yn llawn gan eu bod yn dilyn eu greddf, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain.

Mae'r plant yn datrys problemau yn llwyddiannus a chânt eu cefnogi i wneud penderfyniadau. Er enghraifft, gosododd un plentyn gwpan ar un pen y twnnel dŵr cyn arllwys dŵr drwy'r pen arall gan ei fod eisoes wedi nodi'r canlyniad posibl. Mae'r plant yn cael ymdeimlad o hunanhyder a balchder o ganlyniad i'w llwyddiannau wrth chwarae a darganfod. Maent yn annibynnol ac yn golchi a sychu eu dwylo'n fedrus. Yn ystod amseroedd bwyd, caiff yr holl blant eu hannog i ddatblygu eu sgiliau annibynnol. Mae'r plant

hŷn yn eistedd o amgylch bwrdd gyda chyllyll a ffyrc go iawn ac yn gweini bwyd eu hunain o'r llestri gweini yn hyderus. Maent hefyd yn gallu helpu eu hunain i ragor o fwyd os ydynt yn dymuno. Yn ystod amseroedd bwyd, mae'r plant yn sgwrsio â'i gilydd ac yn dangos sgiliau annibyniaeth a chymdeithasol ardderchog. Maent yn mwynhau'r profiad yn fawr.

## Gofal a Datblygiad **Rhagorol**

Mae gan yr aelodau o'r staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o bolisïau'r lleoliad. Cânt eu rhoi ar waith yn gyson i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, hybu diogelwch personol y plant a sicrhau eu llesiant. Maent yn rheoli unrhyw risgiau yn rhagweithiol ac yn effeithiol bob amser. Mae'r staff yn siarad yn barchus â'r plant bob amser, gan ddangos diddordeb, pleser a gofal ym mhopeth a wnânt. Maent yn ymateb i anghenion unigol y plant yn brydlon ac yn nodi'n effeithlon pan fyddant angen cysgu, gan ymateb yn briodol i hynny. Mae'r staff yn glanhau'r safle yn rheolaidd ac yn atgoffa'r plant i olchi eu dwylo yn gyson. Maent hefyd yn sicrhau eu bod yn dilyn gweithdrefnau hylendid da iawn wrth weini bwyd ac wrth newid cewynnau. Mae'r staff yn ymwybodol o alergeddau'r plant ac maent yn cymryd camau rhagweithiol i gadw'r plant yn ddiogel. Mae gan y staff ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau o ran diogelu'r plant. Maent yn ateb yn hyderus am yr hyn y dylent ei wneud pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant, ac mae ganddynt wybodaeth dda am y gweithdrefnau. Maent yn cofnodi amseroedd presenoldeb gwirioneddol y plant ac yn llenwi ffurfleni damweiniau a digwyddiadau yn brydlon, gan rannu'r wybodaeth â'r rhieni cyn iddynt ddod i gasglu'r plant.

Mae'r staff a'r plant yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffordd barchus bob amser. Mae'r staff yn gyson ymatebol ac yn parchu safbwyntiau'r plant. Mae rhyngweithio'r staff yn gadarnhaol iawn, ac maent yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd gwirioneddol. Mae'r staff yn llongyfarch y plant pan fyddant yn dilyn y rheolau. Er enghraifft, cafodd y plant hŷn eu canmol pan wnaethant rannu'r adnoddau gwneud marciau yn yr awyr agored a helpu ei gilydd i'w tacluso ar ôl iddynt orffen. Maent yn achub ar bob cyfle i wella'r rhyngweithio drwy ymateb yn ofalus, sy'n gwella geirfa Gymraeg y plant yn bwrpasol ac yn datblygu eu hiaith lafar.

Mae'r staff yn wybodus iawn mewn perthynas â'r adnoddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn gallu esbonio'r ffordd y maent yn datblygu eu hamgylchedd drwy ddefnyddio adnoddau bywyd go iawn i hybu chwilfrydedd y plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth gyfoethog o faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth ac maent yn hyrwyddo hawliau'r plant yn llawn. Er enghraifft, maent yn rhoi adnoddau o bedwar ban byd i'r plant a llyfrau sy'n eu haddysgu am wahanol ddiwylliannau, ac mae'r rheolwr wedi cwblhau hyfforddiant yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth ragorol o weithgareddau chwarae a dysgu ac maent yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. O ganlyniad, maent yn cyfrannu'n effeithiol at ddysgu a sgiliau meddwl beirniadol y plant. Caiff ethos chwarae yn yr awyr agored y lleoliad ei roi ar waith yn llawn gan y staff. Lle y bo'n bosibl, maent yn sicrhau bod y plant yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau naturiol yn eu hardaloedd awyr agored. Mae rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant achrededig yr ysgol goedwig ac mae rhai eraill yn astudio cwrs ar feddwl awyr agored ar hyn o bryd. Mae'r staff yn sicrhau bod gan bob plentyn daith ddysgu fel rhan o'i lwyfan cyfathrebu, sy'n cynnwys llwybrau datblygu ac arsylwadau. Mae hyn yn helpu'r staff i gynllunio ar gyfer y camau nesaf ac yn eu galluogi i deilwra dysgu'r plant yn unol â'u hanghenion unigol a'u dewisiadau.

| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi mesurau effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn mewn perthynas â sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr ardderchog dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio lliwiau niwtral ac adnoddau naturiol ym mhob rhan o'r amgylchedd, sy'n creu ymdeimlad o lonyddwch yn y lleoliad sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y plant. Maent yn cynnal gwiriadau diogelwch ac yn cwblhau ymarferion tân yn rheolaidd, gan sicrhau y caiff sylwadau eu cofnodi a'u dadansoddi er mwyn gwella ymarferion gwagio'r adeilad yn y dyfodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg manwl ar gyfer pob agwedd ar yr amgylchedd. Mae ganddynt hefyd asesiadau risg trylwyr ar gyfer gweithgareddau a theithiau, sydd wedi'u teilwra ar gyfer pob grŵp oedran. Maent yn sicrhau bod y cymarebau staffio yn gywir bob amser ac yn sicrhau bod lefelau uchel o oruchwyliaeth a chyfathrebu yn rhan o'r mesurau diogelwch rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r ardal yn effeithiol, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r cynllun wedi'i drefnu'n ofalus ac yn darparu mannau dysgu rhagorol i'r plant eu harchwilio yn ogystal ag ardaloedd iddynt orffwys neu gael amser tawel. Mae ardal gysgu sydd ar wahân i'r ardal chwarae, ac mae hyn yn sicrhau bod y babanod yn cael llonydd i orffwys a chysgu. Maent yn defnyddio cymaint o olau naturiol â phosibl yn y lleoliad ac maent wedi cyflwyno corneli cyfforddus â goleuadau ysgafn sy'n creu awyrgylch hamddenol. Mae ardaloedd awyr agored mawr y lleoliad yn ddiogel ac yn cynnig cyfleoedd ardderchog ar gyfer dysgu a datblygu eang. Cynigir digon o gyfleoedd i'r plant hŷn symud yn rhydd i'r ardal awyr agored.  Mae'r lleoliad wedi creu ysgol goedwig hudolus mewn ardal goetir. Gellir cyrraedd yr ardal hon drwy'r ardd, lle mae cwningod ac ieir yn rhannu'r ardal â'r plant yn fodlon. Mae gan y lleoliad nyth pren mawr mewn coeden, cylch boncyffion, ardaloedd cysgodol, cuddfannau a thoiled compost caeedig wedi'i ddylunio'n bwrpasol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ystyried pob agwedd ar ddiogelwch yn ofalus ac yn monitro hyn yn rheolaidd. Mae amgylchedd awyr agored diogel, ysgogol ac ysbrydoledig ar gael i'r plant lle gallant werthfawrogi'r tymhorau newidiol yn llawn a manteision awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi dechrau rhoi dull gweithredu addysgol ar waith sy'n blaenoriaethu chwilfrydedd, creadigrwydd a datblygiad cyfannol. Maent yn sicrhau eu bod yn darparu adnoddau go iawn, penagored a rhai wedi'u hailgylchu i'r plant sy'n eu galluogi i arwain eu chwarae eu hunain.  Er enghraifft, bu'r plant yn chwarae wrth fwrdd gwisgo go iawn gyda gemwaith, drychau ac ategolion gwallt. Mae ganddynt hefyd gorneli cartref croesawgar yn y lleoliad gyda dodrefn a setiau te go iawn. Maent yn darparu dillad go iawn i'r plant yn yr ardal gwisgo i fyny ac mae gan y plant hŷn fasged yn llawn adnoddau diddorol i'w harchwilio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd

da sy'n addas ar gyfer anghenion datblygiadol pob plentyn. Er enghraifft, roedd gan y babanod amrywiaeth o adnoddau priodol o ran oedran a chyfarpar mwy fel y ramp cropian enfys poblogaidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref a gaiff ei rhannu ag eraill. Mae'r holl staff yn deall eu brwdfrydedd a'u hethos mewn perthynas â dysgu awyr agored yn llawn ac maent wedi'u hymgorffori'n llawn yn eu darpariaeth bwrpasol. Maent yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n bodloni'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu gwasanaeth o ansawdd ac maent yn ymrwymedig i wneud hynny.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn parhau i weithio gyda'r staff er mwyn cyflwyno gwelliannau cadarnhaol i'w gwasanaeth. Maent yn cwblhau adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal sy'n bodloni'r rheoliadau ac maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, y rhieni/gofalwyr, y staff a'r holl rhanddeiliaid ac yn eu rhoi ar waith. Er enghraifft, yn yr holiadur diweddaraf, gofynnodd y rhieni am gyfarfodydd gyda gweithwyr allweddol ac, o ganlyniad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi trefnu bron 50 o gyfarfodydd â'r rhieni, a fu'n llwyddiannus yn ôl yr arweinwyr a'r rheolwyr.

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Maent yn sicrhau bod y staff yn deall ac yn dilyn gweithdrefnau. Fodd bynnag, ar un achlysur, ni wnaethant sicrhau bod tystysgrif cofnod troseddol manwl cyflogai wedi'i hadnewyddu mewn modd amserol. Yn dilyn ein hymweliad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi tystiolaeth foddhaol i AGC fod hyn wedi'i gwblhau. Maent yn sicrhau bod staff newydd yn cael hyfforddiant sefydlu a bod y staff yn cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith ac maent yn sicrhau bod y staff yn eu dilyn yn gyson. Fodd bynnag, nid yw'r polisi amddiffyn plant yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau eu bod yn dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant yn gywir bob amser a'u bod yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at yr awdurdod lleol.  Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth system effeithiol ar gyfer cwblhau arfarniadau ac arsylwadau er mwyn cefnogi'r staff yn eu rolau. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i roi adborth ar arsylwadau a chyfarfodydd arfarnu blynyddol, ac mae pob un yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, nid ydynt yn cofnodi cyfarfodydd goruchwylio'r staff ar hyn o bryd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cymarebau staffio yn cael eu bodloni bob amser. Fodd bynnag, nid yw'r staff wedi cael eu cyfarwyddo i lofnodi pan fyddant yn cymryd egwyl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn meithrin partneriaethau cryf iawn â'r rhieni. Cawsom adborth cadarnhaol gan y rhieni drwy holiaduron ac yn ystod yr ymweliad. Dywedodd un rhiant mai'r diweddariad dyddiol ar gynydd ei blentyn, sy'n cael ei anfon ddwywaith y dydd, yw uchafbwynt ei ddiwrnod. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gontract ar gyfer pob plentyn ac maent yn casglu'r wybodaeth a'r caniatâd angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am amser eu plentyn yn y lleoliad mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys ar lafar ar ddiwedd y dydd a thrwy eu llwyfan cyfathrebu ar-lein effeithiol. Mae tystiolaeth o barch rhwng y staff a'r rhieni/gofalwyr. Maent yn ymdrechu i wella'r lleoliad yn barhaus ac maent eisoes wedi cael ysgoloriaeth a sawl gwobr gan sefydliadau trydydd parti.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 22 | Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ddiweddaru'r polisi yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol a sicrhau bod yr holl arweinwyr diogelu dynodedig yn glir o ran y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd unrhyw honiad o gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol a'r arweinwyr diogelu dynodedig weithredu, cydgysylltu a sicrhau y caiff ymholiadau amddiffyn plant eu hatgyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol. | Newydd |
| 20 | Mae'n rhaid i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad sicrhau bod y tystysgrifau cofnod troseddol manwl ar gyfer pob cyflogai yn cael eu hadnewyddu mewn modd amserol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 15 - Cymarebau staffio | Sicrhau bod y staff yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael eu prif ystafelloedd pan fyddant yn cymryd egwyl. |
| Safon 5 - Cofnodion | Cynnwys sesiynau goruchwylio mewn cyfarfodydd adborth ar arsylwadau a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chofnodi. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/05/2024